Cynllun Corfforaethol

2019-2021

menter iaith
Castell-nedd Port Talbot

Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot
Tŷ'r Gwrhyd, Stryd Holly, Pontardawe. SA8 4ET

CYNNWYS

Crynodeb Gweithredol 3
Disgrifiad o'r Sefydliad 5
Datganiad o Genhadaeth 6
Astudiaeth o Gryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau 7
Nod ac Amcanion 9
Dangosyddion Perfformiad Allweddol 11
Cynulleidfaoedd Targed 12
Partneriaid Allweddol 13
Y Gymuned Leol 15
Cynllun Marchnata 19
Strwythur Staffio 24
Cynllun Gweithredol – Blwyddyn 1 25
Cyllid 29




vision express
optegydd
Tyder Ynni



CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r cynllun gweithredol hwn yn gosod strategaeth Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar gyfer y cyfnod 2019-2021 er mwyn ymdrin â'r iaith Gymraeg yn dilyn canlyniadau anffafriol cyfrifiad 2011 a'r cwymp sylweddol a welwyd yn y canrannau o siaradwyr Cymraeg o fewn bwrdeistref sirol Castell-nedd Port Talbot.

Dengys Cyfrifiad 2011 mae 15.3% o boblogaeth y sir sydd yn medru'r Gymraeg, sydd yn cyfateb i ryw 20,698 o bobl. Mae mwyafrif helaeth y trigolion yma yn byw ym mhen uchaf Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

Fel canlyniad, mae'n rhaid gosod seilwaith cadarn yn ei le er mwyn ceisio ymdrin â'r Gymraeg, gan anelu at weithio'n agos gyda phartneriaid er mwyn creu mwy o ddefnyddwyr Cymraeg hir dymor gan edrych yn benodol ar y potensial i wella agweddau a chynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith gyfoes, hanesyddol, a diwylliannol bwysig. Mae'r nod yn un syml:

i hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws Castell-nedd a Phort Talbot gyda phobl o bob oedran a gallu ieithyddol.

Er mwyn cyrraedd y nod, bydd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn adnabod cyfnodau penodol o fewn taith bywyd unigolion ac yn ymyrryd er mwyn ceisio dylanwadu ar ddewis iaith yr unigolyn. Ein nod yw defnyddio'r seilwaith hwn a'i fwydo i mewn i fframwaith 'Cymraeg:2050' Llywodraeth Cymru, gan lenwi unrhyw bylchau amlwg yn ddarpariaeth o weithgareddau ac ymgyrchoedd penodol. Yn ogystal bydd y Fenter yn ymrwymo i gefnogi gwaith ein partneriaid strategol megis Mudiad Meithrin / Cymraeg i Blant, Canolfan Gymraeg Tŷ'r Gwrhyd, Yr Urdd a'r ysgolion lleol, ei gryfhau ac ychwanegu ato, trwy godi ymwybyddiaeth o'u hymgyrchoedd ac ychwanegu at y bwrlwm cymunedol sydd yn hanfodol wrth werthu'r Gymraeg fel iaith fyw ac iaith byw.

Byddwn hefyd yn gosod cynllun gweithredu dwys yn ei le er mwyn adeiladu ar lwyddiannau prosiect Partneriaeth Aman Tawe gan lunio rhaglen waith bwrpasol ar gyfer ardal Aman Tawe mewn partneriaeth â Menter Bro Dinefwr.

DISGRIFIAD O'R SEFYDLIAD

Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn fenter iaith sydd yn gwasanaethu pob ardal o fewn bwrdeistref sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Fenter Iaith yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau cymdeithasol ar gyfer pobl o bob oed a gallu ieithyddol, ac yn marchnata'r Gymraeg yn lleol gyda'r nod o sefydlogi'r iaith a meithrin agweddau cadarnhaol tuag ati. Mae'r Fenter Iaith yn gwmni cyfyngedig dielw sy'n cael ei arwain gan Fwrdd Rheoli gwirfoddol. Mae gan y Fenter nifer o bwyllgorau lleol sy'n llywio cyfeiriad y rhaglen waith, ac mae hyn yn cael ei gydlynu gan Brif Swyddog mewn cydweithrediad â'r staff datblygu.

Ariennir y Fenter gan Lywodraeth Cymru ond mae'n creu incwm trwy amryw o weithgareddau cymdeithasol Cymraeg.



DATGANIAD O GENHADAETH

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn ceisio sefydlogi niferoedd y siaradwyr Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot, a'u cynyddu, trwy annog a chefnogi trigolion lleol i ymgysylltu a'r iaith mewn modd cadarnhaol. Yn ogystal, mae'r Fenter yn helpu pobl yr ardal i wneud penderfyniadau rhagweithiol hir dymor ynghylch eu dewisiadau ieithyddol neu ddewisiadau ieithyddol eu perthnasau.

Uchelgais Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yw hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws Castell-nedd a Phort Talbot gyda phobl o bob oedran a gallu ieithyddol.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, rydym yn gweithredu model tebyg i'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghatalonia gyda strategaeth sydd yn seiliedig ar gyfnodau allweddol mewn bywyd unigolyn lle mae'r unigolyn yn wynebu dewis un iaith dros y llall. Mae'r strategaeth hon yn bwydo'n uniongyrchol i mewn i strategaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru.

Ein bwriad yw adnabod y cyfnodau pwysig o fewn cylch bywyd unigolyn a datblygu rhaglen waith ac ymgyrchoedd a fydd yn gosod pwyntiau ymyrraeth mewn lle er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddewis iaith. Mae'r gwaith hwn yn bwydo i mewn i feysydd strategol 'Cymraeg 2050' sef, Thema 2: Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg.

Er mwyn effeithio'n gadarnhaol, ein bwriad yw datblygu gweithgareddau, digwyddiadau, cynlluniau ac ymgyrchoedd sydd yn atgyfnerthu'r dewis i ddefnyddio'r Gymraeg neu ymgysylltu â hi. Bydd y Fenter yn sicrhau bod marchnata'r Gymraeg yn mynd llaw yn llaw gyda bwrlwm cymdeithasol a phrosiectau sydd o'r safon uchaf posib. Ein nod yw cynyddu'r defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg o fewn rhwydweithiau cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli a chreu rhwydweithiau newydd o siaradwyr Cymraeg o fewn awyrgylch iach a hinsawdd naturiol ddwyieithog.

CRYFDERAU, GWENDIDAU, CYFLEOEDD A BYGYTHIADAU

CRYFDERAU

- Perthynas dda gyda'r partneriaid: Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, Canolfan Gymraeg Tŷ'r Gwrhyd, Prifysgol Abertawe, ysgolion lleol, Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin, Urdd Gorllewin Morgannwg, busnesau, Cyngor Sir, Menter Iaith Abertawe.
- Enw da yn lleol (y Fenter yn rhan annatod o'r cymunedau)
- Ewyllys da – Llawer o bobl yn adnabod y Fenter ac yn dangos dealltwriaeth o rôl y Fenter.
- Naws anffurfiol i ddatblygu cynlluniau – pwyllgorau ardal yn cwrdd yn gymdeithasol – perthynas dda ac anffurfiol.
- Gwirfoddolwyr yn rhan hanfodol o'n gwaith, ac mae gennym nifer o bobl weithgar a brwdfrydig.
- E-ddigwyddiadur y Fenter yn adnodd gwych sy'n targedu pobl yn uniongyrchol.
- Y Fenter wedi aros yn gyson yn strategol.
- Ymdeimlad bod y fenter yno i gefnogi.
- Brandiau adnabyddus i ddigwyddiadau penodol. Yn enghraifft o bartneriaeth lwyddiannus rhwng y gymuned a'r staff.
- Nod ac amcanion clir – pawb yn deall beth yw rôl y Fenter.
- Y Fenter yn gweithredu yn amrywiol ac yn eang.
- Cyfathrebu mewnol a gweithio fel tîm craidd yn gryfder.
- Staff da, gweithgar ac effeithiol. Cryfderau / arbenigedd unigolion.
- Pwyllgor yn arwain o'r blaen ac yn gefnogol iawn o'r Gymraeg.

CYFLEOEDD

- Tŷ'r Gwrhyd. Cyfle i ddatblygu a chynorthwyo i gynyddu'r nifer o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael.
- BID Castell-nedd a'r ardal - Cyfle i wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy o fewn busnesau Castell-nedd.
- Y Gweilch - Cyfleoedd i ddefnyddio brand y Gweilch er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chreu hyfforddwyr sydd yn medru'r Gymraeg.
- Marchnata digidol – Angen gwneud y gorau o'r cyfleoedd i farchnata yn ddigidol.
- Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur– gweledigaeth yno i effeithio ar ddefnydd iaith, felly posibilrwydd cydweithio a datblygu strategaeth ar y cyd.
- Angen edrych ar ddulliau eraill o greu incwm i'r Fenter.
- Marc Ansawdd 'Trusted Charity' NCVO – trwy gael y marc yma yn 2020 bydd y Fenter yn cryfhau barn y cyhoedd.
- Y Fenter yn dechrau adnabod pocedi Cymreig newydd o fewn i sir er mwyn gweithredu'n lleol.

GWEINDIDAU

- Diffyg adnoddau i ymdrin â Sir anferth o ran poblogaeth ac ardal.
- Gwaelodlin yn isel iawn ac felly angen mwy o adnoddau/ymdrech i ymdrin â'r sefyllfa, yn ogystal â dim data cyfredol.
- Bwrdeistref yn enfawr o ran daearyddiaeth.
- Gorddibyniaeth ar aelodau (yr un bobl sy'n gwneud popeth), dim digon o staff i wneud popeth i bawb.
- Marchnata a hyrwyddo – llawer yn digwydd ond marchnata dal yn wan – wedi gwella ond dal mwy i wneud.
- Angen gwell ymgyrchoedd marchnata a bod yn gadarn ynghylch y negeseuon yr ydyn ni am eu trosglwyddo. Hyrwyddo'r fenter/y Gymraeg neu'r ddau beth.
- Anghysondeb o ran dulliau marchnata. Ydy'r dulliau'n addas i'r gynulleidfa darged?
- Angen cyfleu'r strategaeth yn allanol a chlymu'r gweithgareddau i mewn i'r fath o newid y mae angen ei weld.
- TG y Fenter yn wael iawn – o ran caledwedd a sgiliau staff.
- Angen cael yr atebion am y Gymraeg ar flaenau ein bysedd – diffyg gwybodaeth ac ystadegau yn beryglus.
- Angen rhannu gwybodaeth yn well gyda mudiadau arall.
- Lot o weithgareddau wedi ffocysu ar un ardal benodol, angen mwy o weithred ar draws y sir gyfan.
- Diffyg 'brand' y Fenter. Pobl yn gyfarwydd â digwyddiadau, ond ddim y mudiad.
- Diffyg cynllun dilyniant y Pwyllgor, angen recriwtio aelodau newydd er mwyn i'r pwyllgor parhau i lwyddo.

BYGYTHIADAU

- Diffyg cyfathrebu rhwng mudiadau amrywiol weithiau.
- Yr iaith yn cael ei gweld fel rhywbeth gwleidyddol yn lleol.
- Diffyg adnoddau rhydd a staff.
- Yn dibynnu bron yn llwyr ar grant y Llywodraeth ac angen torri i mewn i feysydd newydd i dderbyn cyllid.
- Ad-drefnu'r siroedd yn golygu bod hunaniaeth yr ardal dan fygythiad, ond angen gweld hyn fel cyfnod newydd a gweithio tuag at gryfhau partneriaethau.

NOD AC AMCANION


Er mwyn cyrraedd ei uchelgais mae'r Fenter wedi adnabod ei phrif nod ac amcanion, yn seiliedig ar ein strategaeth hirdymor i effeithio'n gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg.

Nod y Fenter yw sicrhau arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Amcanion y Fenter

- Codi proffil Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar draws yr ardal gyfan.
- Datblygu dulliau marchnata effeithiol a strategaeth ymgysylltu sydd yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol.
- Ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg rhugl, dysgwyr a'r di-gymraeg i werthu 'brand' y Fenter Iaith i bawb.
- Effeithio'n gadarnhaol ar benderfyniadau ieithyddol y cyhoedd a sicrhau bod twf ar draws y meysydd targed.
- Sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o'u hanes, eu treftadaeth a'u diwylliant ac yn falch ohoni ac yn gofalu amdani.

Yn ogystal â phum prif amcan, mae'r Fenter wedi adnabod tri maes blaenoriaeth ar gyfer ei gwaith, sef;



Mae amcanion y meysydd yma wedi'u rhestru ar dudalen 9.

Teuluoedd

- Sicrhau trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref gyda rhieni Cymraeg, a theuluoedd cymysg eu hiaith.
- Bod rhieni yn ymwybodol o fanteision a chyfleodd addysg Cyfrwng Cymraeg y sir.
- Sicrhau bod rhieni yn danfon eu plant at ysgolion cyfrwng Cymraeg lle'n bosib.
- Bod cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlwg ac yn hygyrch i deuluoedd yr ardal.

Plant a Phobl Ifanc

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r manteision a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn sawl agwedd o'u bywydau.
- Bod cyfleodd i ddefnyddio'r iaith yn amlwg ac yn hygyrch i blant a phobl ifanc y sir.
- Codi hyder plant a phobl ifanc yn eu sgiliau iaith, er mwyn iddynt ei defnyddio.
- Bod plant a phobl ifanc yn parhau i ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u bywydau pob dydd, yn gymdeithasol ac yn broffesiynol.

Cymuned

- Codi ymwybyddiaeth cymunedau, busnesau a phobl leol am fanteision yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig a lleol.
- Bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlwg ac yn hygyrch i gymunedau'r sir gyfan.
- Codi hyder a sgiliau trigolion y sir i fynychu gweithgareddau sydd ar gael, ac y gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- I gael yr iaith Gymraeg yn rhan naturiol o fywydau bobl o ddydd i ddydd, yn broffesiynol ac yn gymdeithasol.

DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

Mae'r Fenter yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Isod fe welwch nifer y gweithgareddau arfaethedig rydyn ni'n bwriadu cynnal yn ystod 2019-2021.

	2019-20	2020-21
Dangosyddion Maes Teuluoedd		
Nifer o weithgareddau a drefnir ar gyfer teuluoedd	30	33
Niferoedd mynychu (oedolion)	300	325
Niferoedd mynychu (plant)	300	325
Nifer o becynnau ymwybyddiaeth iaith	100	130
Dangosyddion Maes Plant a Phobl Ifanc		
Nifer o weithgareddau a drefnir ar gyfer plant a phobl ifanc	77	80
Niferoedd mynychu	1000	1100
Nifer o sesiynau 'Stafell Stwnsh yn ysgol Ystalyfera	120	150
Niferoedd mynychu	3000	3100
Dangosyddion Maes Y Gymuned		
Nifer o weithgareddau a drefnir ar gyfer y gymuned	30	35
Niferoedd mynychu	1000	1050
Nifer o grwpiau gweithredu lleol	7	7
Nifer o gyfranwyr i'r grwpiau gweithredu	30	37
Nifer o sefydliadau a gefnogir i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg	4	5
Nifer o unigolion a gefnogir i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg	30	37
Dangosyddion Maes Seilwaith		
Nifer sy'n ymweld â gwefan y sefydliad yn ystod y flwyddyn	1000	1500
Nifer o gylchlythyrau sy'n cael eu hanfon gan y Fenter yn flynyddol	12	12
Nifer o bobl sy'n derbyn cylchlythyr	800	900
Nifer o ddilynwyr Facebook	1500	2000
Nifer o ddilynwyr Twitter	1000	1200
Nifer tanysgrifwyr sianel YouTube	50	74
Nifer o ddilynwyr Instagram	200	250

CYNULLEIDFAOEDD TARGED

Bydd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn targedu'r cynulleidfaoedd canlynol yn ystod y cyfnod:

Teuluoedd

- Rhieni newydd sydd yn ystyried dewisiadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer addysg eu plant.
- Rhieni sydd yn wynebu anawsterau wrth geisio trosglwyddo'r iaith yn y cartref.
- Rhieni plant cynradd sydd yn ansicr ynglŷn â dewis addysg uwchradd Gymraeg.
- Rhieni sydd yn edrych am weithgareddau Cymraeg rheolaidd er mwyn dylanwadu ar eu plant.

Plant a Phobl Ifanc

- Plant oed cynradd sydd angen mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol o fewn yr ysgol a thu allan.
- Pobl ifanc oed uwchradd sydd angen mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol o fewn yr ysgol a thu allan.
- Plant a phobl ifanc sy'n rhan o gynllun Cymraeg Campus (Ysgolion cyfrwng Saesneg), er mwyn annog dysgu a defnyddio'r iaith.
- Pobl ifanc hyn sydd â diddordeb gwirfoddoli / profiadau proffesiynol ym maes Cymraeg.

Y Gymuned

- Dysgwyr a thiwtoriaid – Cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg a'i hymarfer trwy ddatblygu cyfleoedd ychwanegol.
- Trefnwyr gwyliau a gweithgareddau mawr lleol sydd ddim yn ystyried y Gymraeg wrth gynllunio.
- Trigolion newydd i'r ardal, sydd am ddod yn rhan o'r gymuned Cymraeg lleol.
- Oedolion sydd am fynychu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.



PARTNERIAID ALLWEDDOL

Llywodraeth Cymru – Darparwyr y grant craidd sydd yn sail i'r holl waith ond hefyd yn bartner allweddol wrth ystyried ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol. Bydd cefnogaeth hefyd yn dod ar ffurf hyfforddiant a chydweithio cenedlaethol a rhanbarthol.

Mentrau Iaith Cymru – Partner allweddol o safbwynt meincnodi a rhannu gwybodaeth yn ymwneud â'r mentrau eraill yn enwedig wrth ystyried hyfforddiant.

Mudiad Meithrin / Cymraeg i Blant – Wrth edrych ar gefnogi teuluoedd mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda MM/CiB ac yn cydgynllunio ymgyrchoedd marchnata lleol.

Ysgolion cynradd Cymraeg yr ardal – Mae gan y Fenter bartneriaeth arbennig o dda gydag ysgolion cynradd yr ardal, ac wrth symud i mewn i feysydd mwy ffurfiol e.e. dilyniant addysg, bydd y bartneriaeth yn allweddol.

Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur – Rydym yn cydariannu swyddog gydag Ysgol Gyfun Ystalyfera er mwyn adeiladu cyswllt strategol rhwng yr ysgol, y Fenter a'r ysgolion sydd yn bwydo'r uwchradd. Ein bwriad yw targedu carfannau penodol o fewn yr ysgol er mwyn datblygu arweinwyr cymunedol, datblygu rhaglenni gwaith strategol a chreu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion tu allan i'r ysgol.

Ysgolion cyfrwng Saesneg yr ardal – Mae gan y Fenter bartneriaeth dda gyda sawl ysgol cyfrwng Saesneg (cynradd ac uwchradd) ar draws y sir. Ein bwriad yw cynnal a chynyddu'r partneriaethau yma trwy ein gwaith gyda'r Siarter Iaith / Cymraeg Campus.

RhAG – Byddwn yn cefnogi RhaG ac yn hyrwyddo unrhyw ymgyrchoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg yn lleol

Academi Hywel Teifi – Prifysgol Abertawe (rheolwyr Canolfan Gymraeg Tŷ'r Gwrhyd) – Rydym wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r Academi wrth i ni ymgartrefi yn Nhŷ'r Gwrhyd. Rydym yn bwriadu parhau gyda'r perthynas llwyddiannus yma er mwyn trefnu rhaglen o weithgareddau cymunedol i bobl o bob oed sy'n ymweld â Thŷ'r Gwrhyd.

Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe – Rydym yn cydweithio gyda Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe i gefnogi dysgwyr Cymraeg ar draws y sir a chyfoethogi eu profiad Cymunedol Cymraeg.

Urdd – Gorllewin Morgannwg a Brycheiniog a Maesyfed – Rydym yn cydweithio ar hyn o bryd i gynnal clwb ieuenctid Cymraeg yng Nghastell-nedd. Ein bwriad yw cydweithio i geisio sefydlu mwy o brosiectau ieuenctid ar draws yr ardal gan gynnwys clwb ym Mhort Talbot neu Ystalyfera. Mae nifer o brosiectau ar y cyd gyda'r Urdd yn Brycheiniog fel rhan o gynllun PartnerIAITH.

BID Castell-nedd – Rydym wedi bod mewn cyswllt gyda'r corff hwn er mwyn meithrin perthynas gyda'r busnesau yng Nghastell-nedd ac o ganlyniad rydym wedi cael gwahoddiad

i gyfarfod Siambr Fasnach Castell-nedd. Ein bwriad yw cael mwy o fusnesau Castell-nedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i adeiladu perthynas weithiol gyda'r Fenter Iaith. Arweinir y gwaith yma gan y Swyddog Cymraeg Byd Busnes.

Grŵp CNPT -Rydym wedi bod yn cynnig sesiynau ymwybyddiaeth iaith gyda Choleg Castell-nedd ac fe fyddwn yn targedu myfyrwyr newydd mis Medi er mwyn datblygu rhaglen i godi ymwybyddiaeth.

Rhanbarth Rygbi'r Gweilch – Rydym yn cydweithio gyda'r Gweilch bob blwyddyn i hyfforddi grwp o bobl ifanc i ddod yn hyfforddwyr rygbi sy'n medru'r Gymraeg.

Menter Iaith Abertawe – Rydym wedi cynnal deialog cadarnhaol gyda Menter Iaith Abertawe ynghylch cydweithio'n strategol ar brosiectau trawsffiniol er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a rhannu arfer da. Ein bwriad yw dod a'r berthynas yn fwy agos ond sicrhau nad yw'r diddordeb a'r brwdfrydedd lleol yn cael eu colli. Mae'n bwysig hefyd i ni ystyried anghenion gwahanol ein hardaloedd.

Menter Bro Dinefwr – Byddwn yn cydweithio gyda Menter Bro Dinefwr er mwyn parhau gyda gwaith dwys o fewn ardal Aman Tawe.

Menter Iaith Brycheiniog a Maesyfed – Byddwn yn parhau i gynnig gwasanaethau ar draws y ffin gyda chymunedau Ystradgynlais fel rhan o'r bartneriaeth gyda Menter Iaith Brycheiniog a Maesyfed.

Swyddog Cymraeg Byd Busnes – Mae'r Fenter yn gweithredu fel cyflogwr i'r swyddog Cymraeg Byd Busnes sy'n gweithredu ar draws Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae'r Fenter yn awyddus i gefnogi'r gwaith yma trwy edrych ar ardaloedd penodol ein hardal ble gall y swyddog cael effaith sylweddol a'i annog i weithio yna'n ddwys. Mae'r Fenter wedi cytuno i'r swyddog gweithredu o fewn ardal PartnerIAITH yn ogystal er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn cyrraedd yr ardal yna.

Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot – Mae'r Fenter wedi datblygu perthynas cryf gyda'r Cyngor Sir lleol, rydym yn mynychu cyfarfodydd Swyddogion y Gymraeg ac yn cefnogi'r Cyngor gyda'i trefniadau o dan y Cynllun Hybu.



Y GYMUNED LEOL

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae tua 15.3% o boblogaeth y sir yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn cyfateb i 20,698 o bobl. Mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn byw ym mhen uchaf Cwm Tawe a Dyffryn Aman. Mae rhai cymunedau megis Godre'r Graig ac Ystalyfera wedi gweld dirywiad o dros 10% o fewn degawd wrth gymharu ag ystadegau cyfrifiad 2001.

Gwelir yn y tabl isod, mae cwymp sylweddol wedi digwydd yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau traddodiadol Cymraeg.

Cymuned	% Siaradwyr Cymraeg (2001)	% Siaradwyr Cymraeg (2011)	% newid
Cwmllynfell	68.2	58.8	-9.4
Brynaman Isaf	68.1	60.8	-7.3
Gwauncaegurwen	67.9	55.8	-12.1
Ystalyfera	54.6	46.0	-8.6
Trebannws	42.4	33.6	-8.8
Godre'r Graig	41.5	30.1	-11.4
Pontardawe	37.4	31.0	-6.4
Alltwen	35.9	29.5	-6.4
Rhos	28.6	24.7	-3.9

(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001/2011)

Mae'n bwysig felly i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn drwy ymgyrchoedd marchnata penodol i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc.

Mae yna nifer o resymau pam y gwelir erydiad ieithyddol yn digwydd mewn ardaloedd sydd â chanrannau a niferoedd cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg – nodwedd sydd yn gyffredin i gymunedau cyffelyb sydd yn ymestyn ar draws Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth.

Ymhlith y prif ffactorau sydd yn cyfrannu tuag at ddirywiad iaith mae:-

- Diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref
- Allfudo/Mewnfudo
- Canfyddiad negyddol o werth cynhenid yr iaith
- Diffyg ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd
- Diffyg hyder Cymry Cymraeg
- Ymlediad y Saesneg i beuoedd traddodiadol y Gymraeg
- Priodasau cymysg eu hiaith
- Grym y dylanwad Eingl-Americanaidd ar ddiddordebau plant a phobl ifanc
- Mwy o farwolaethau na genedigaethau ymhlith teuluoedd Cymraeg

Rhaid peidio â rhoi gormod o bwyslais ar ddadansoddiadau gofodol o sefyllfa'r iaith gan mai cyfrwng cymdeithasol a diwylliannol yw hi yn y pen draw ac mae ei nerth a'i chryfder i'w mesur yn ei defnydd, ei statws a'r swyddogaeth a rhoddir iddi o fewn patrymau cymdeithasol lleol. Lle mae dwysedd y siaradwyr Cymraeg yn para'n gryf mae'r Gymraeg yn dal ei thir yn gymharol lwyddiannus fel iaith bob dydd i'r gymuned, er bod ffactorau grymus yn cyfrannu'n feunyddiol at ei ffawd.

Ar nodyn mwy gobeithiol, mae'r nifer o blant sy'n cael eu nodi gan Benaethiaid Ysgolion Cynradd y sir fel plant sydd yn siarad Cymraeg gartref neu ddim yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd ond yn rhugl, wedi codi rhywfaint dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn ôl y ffigurau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru mae rhyw 1,600 o blant, sef 7.7% o blant, oed cynradd y sir yn siarad Cymraeg gartref ond mae 15.2% o'r holl blant yn cael eu hystyried yn rhugl yn y Gymraeg, sydd yn cyfateb i ryw 3,200 o blant i gyd. Mae'r ffigurau hyn yn sicr yn adlewyrchu'r ymdrechion clodwiw a wneir gan yr Ysgolion Cynradd Penodedig a'r Ysgolion Traddodiadol Gymraeg yn y sir. Fodd bynnag, un gofid yw'r ffaith fod nifer isel o blant o'r Ysgolion Traddodiadol Gymraeg fel Cwmllynfell, Cwmgors, Trebannws a Gwauncaegurwen yn symud ymlaen i Ysgol Gyfun Ystalyfera ar gyfer eu haddysg uwchradd. Mae nifer o blant rhugl eu Cymraeg o'r ysgolion hyn yn mynd i Ysgol Gyfun Cwm Tawe i dderbyn eu haddysg drwy'r iaith Saesneg. Mae'r diffyg dilyniant o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg o'r sector cynradd i'r uwchradd yn sicr yn fater o bryder o safbwynt dyfodol yr iaith a'r hyder sydd yn deillio o'i defnyddio mewn gwahanol gyweiriau a meysydd trafod. Er gwaethaf y tueddiadau hyn, mae'n deg nodi serch hynny fod niferoedd disgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi arwain at agoriad ail safle yn Ne'r sir.

Mae cydweithio gyda'r Ysgolion Cynradd Gymraeg ac Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn cael blaenoriaeth arbennig gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn y Cynllun Strategol. Y nod fyddai darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destun cymdeithasol.

Yn ogystal, yn ôl amcangyfrifon Arolwg Poblogaeth Flynyddol StatsCymru yn 2018 mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn ardal Castell-nedd Port Talbot wedi cynyddu i 30,400 neu 22.8%. Gallwch weld cymhariaeth o'r wybodaeth yma gyda niferoedd y cyfrifiad isod, gyda chanrannau'r boblogaeth, a'r newid.

Nifer 2001	Nifer 2011	Nifer 2018 (amcangyfrif)
23,404 (18%)	20,698 (15.3%) -11.5%	30,400 (22.5%) +31.9%


(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001/2011)

Amcangyfrif yn unig yw'r nifer ar gyfer 2018 ar hyn o bryd, ond mae'r wybodaeth yn galonogol iawn am sefyllfa ieithyddol y Gymraeg yn y sir.

Ardal Aman Tawe – Cynllun Dwys

Sefydlwyd y cynllun yn dilyn adroddiad cynhwysfawr gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a oedd yn adnabod yr ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol arbennig, gyda chynifer o ddangosyddion ieithyddol yn gwegian dan bwysau'r shifft iaith o'r dwyrain.

Ein bwriad dros y ddwy flynedd nesaf yw dwysau'r gweithredu a chanolbwyntio ar beuoedd a chyfnodau allweddol ym mywydau trigolion yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth drawsffiniol gyda Menter Bro Dinefwr, byddwn yn targedu:



Bydd gwaith y cynllun yn ychwanegol i'r hyn sy'n cael ei gyflawni gan Fenter Bro Dinefwr a'r dull gweithredu'n fwy strategol a phartneriaethol ar draws yr ardal. Mae'r ardal dan sylw yn ardal gymharol dlawd ac nid oes ganddi'r gefnogaeth economaidd i'r iaith fel sydd gan drefi mwy, megis Caerfyrddin, Aberystwyth a Bangor.

O'r herwydd, mae gweithredu cynllun dwys yn yr ardal yn hanfodol a chredwn y bydd y gwaith sydd wedi ei gynnwys yn ein cynllun gweithredol yn helpu mynd i'r afael â rhai o'r materion dan sylw.







CYNLLUN MARCHNATA

Nod y Cynllun

Prif nod y cynllun hwn yw codi ymwybyddiaeth o waith a gwasanaethau Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot i wireddu ein datganiad cenhadaeth.

Bydd blaenoriaethau'r cynllun yn newid yn rheolaidd ac yn dibynnu ar amserlen flynyddol o weithgareddau, a byddwn yn ei ddiweddaru ac addasu yn ôl yr angen.

Cryferau Marchnata

- Bas data e-byst yn gryf, ac yn tyfu
- Y gymuned yn marchnata ar ran y Fenter
- Syniadau gwreiddiol ar gyfer symud y strategaeth yn ei blaen
- Cysylltiadau gyda'r ysgolion
- Presenoldeb ar draws y cyfryngau cymdeithasol erbyn hyn, gyda dros 2000 o ddilynwyr ar draws ein cyfrifon.
- Cryfder 'brand' digwyddiadau penodol (Sbri Sadwrn, Sesh Swn ayyb)

Gwendidau Marchnata

- Diffyg ffocws
- Dulliau marchnata yn gyffredinol iawn ac felly yn medru bod yn amherthnasol i ambell grŵp
- Un dull ar y tro – nid oes strategaeth
- Rhaglenni cyfrifiadurol yn cyfyngu ar beth sydd yn bosib
- Diffyg amser ac adnoddau
- Gwendid 'brand' y Fenter.

Cyfleoedd Marchnata

- Gwefan newydd ar fin ei chyhoeddi
- Cyfryngau cymdeithasol am ddim
- Technoleg yn ei gwneud hi'n hawdd creu pethau safonol
- Angen defnyddio'r wefan yn effeithiol.
- Angen cael straeon allan i'r wasg
- Angen creu traffig trwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Angen cael mwy o ymgysylltwyr ar Facebook
- Angen cael mwy o ddilynwyr ar Twitter
- Angen targedu'n fwy effeithiol a cheisio creu argraff gydag ymgyrchoedd safonol a gwahanol


Amcanion marchnata

Mae gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot pedwar prif amcan ar gyfer ein cynllun marchnata, sef:

- Hyrwyddo'r Gymraeg trwy godi proffil ac ymwybyddiaeth o waith y Fenter
- Meithrin perthynas gyda'r cyhoedd
- Adeiladu 'brand' y Fenter ac felly cynyddu niferoedd sy'n mynychu ein gweithgareddau.
- Creu ymgyrchoedd marchnata penodol a'u cefnogi, gan gynnwys ymgyrchoedd y Llywodraeth ac ymgyrchoedd lleol.

Dulliau marchnata addas

Mae'r Fenter wedi adnabod sawl dull marchnata addas. Ni fydd pob dull yn cael ei defnyddio ar gyfer pob gweithgaredd, ond bydd anghenion marchnata pob digwyddiad yn cael ei werthuso a'i weithredu'n unigol.



CYNLLUN GWEITHREDU MARCHNATA

Gweithgaredd Marchnata	Dyddiad Cwblhau	Mesur Effaith
Marchnata Digidol – creu'r seilwaith	31/03/2019	• Facebook Insights, Hootsuite Analytics, Google Analytics. • Tudalen Facebook • Cyfrif Twitter • Sianel Youtube
Marchnata Digidol - creu cynllun manwl	Parhaus	• Defnyddio'r data o'r uchod er mwyn cynllunio'n manwl negeseuon a chynnwys gwahanol ar gyfer ein gynulleidfa amrywiol.
Ymgyrchoedd Marchnata	Parhaus	• Nifer o bobl sy'n dod i ddigwyddiadau'r Fenter, nifer y bobl sy'n cysylltu â'r Fenter. • Nifer o ddilynwyr Facebook, dilynwyr Twitter, Sylw yn y wasg. • Nifer sy'n ymgysylltu gyda'r ymgyrchoedd. • Defnyddio tudalennau i adeiladu brand y Fenter. • Gweithredu ar wybodaeth hyfforddiant marchnata ac arbenigedd staff.
Perthynas â'r Cyhoedd / Cyfathrebu	Parhaus	• Cynnal arolwg i fesur y farn gyhoeddus am waith y Mentrau – holiaduron mewnol i ddylanwadwyr o'u gwybodaeth o'r Fenter.
Perthynas â'r Cyhoedd / Cyfathrebu - Datganiadau i'r Wasg	Parhaus	• Nodi nifer y datganiadau sydd wedi ennyn sylw yn y wasg leol/papurau cenedlaethol.
Nwyddau Marchnata	31/03/2020	• Cynnal archwiliad o holl nwyddau marchnata'r fenter ac amcangyfrif faint o bobl sydd wedi dod i gyswllt â'r negeseuon/brand er mwyn teilwra nwyddau yn barod ar gyfer cynlluniau marchnata'r dyfodol.
Hysbysebu	Trwy gydol y flwyddyn	• Mesur nifer y bobl sydd wedi ymweld â'r wefan/cyfrifon cymdeithasol. • Monitro os oes cynnydd yn nifer y bobl sy'n cysylltu â'r Fenter/partneriaid.

Gwerthuso'r Cynllun Marchnata

Bydd y Fenter yn addasu'r Cynllun Gweithredu Marchnata yma yn gyson wrth edrych ar y ddangosyddion isod:

- Niferoedd dilynwyr Facebook
- Niferoedd sy'n hoffi ymgyrchoedd marchnata
- Niferoedd dilynwyr Twitter / Instagram
- Niferoedd sy'n mynychu gweithgareddau
- Holi barn a derbyn adborth
- Ailedrych ar y cynllun marchnata, ei addasu a'i werthuso eto.









Y Bêl
#CmonCymru
#DiolchCymru



STRWYTHUR STAFFIO

Y nod yw cyflogi 5 aelod o staff erbyn 31/03/2020 gan edrych ar adeiladu ar hyn o fewn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r rhestr staff cyfredol fel a ganlyn:



Mae'r Fenter hefyd yn gyflogwr i Swyddog prosiect Cymraeg Byd Busnes ar gyfer ardal Castell-nedd a Phort Talbot.

Cynllun Gweithredol – Blwyddyn 1

Maes Strategol	**Canlyniadau a ddymunir**	**Allbynnau disgwyliedig** (Targedau ar ffurf CAMPUS)
Teuluoedd	Cynnydd defnydd o'r Gymraeg gyda teuluoedd y sir.	Cydweithio gyda swyddog Cymraeg i Blant yn lleol i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o flaenoriaethau o ran y gweithgareddau a drefnir i deuluoedd yn yr ardal, gan gytuno ar raglen o weithgareddau a sicrhau bod cysondeb o ran negeseuon Cymraeg i Blant yn cael eu rhannu gyda rhieni. Datblygu **30** gweithgaredd pwrpasol trwy gydweithio gyda Swyddog Cymraeg i Blant, Dechrau'n Deg, Cylchoedd Ti a Fi a NPT Family er mwyn sicrhau amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer rhieni gyda phlant bach erbyn 31/03/2020 er mwyn annog a chefnogi rhieni wrth iddynt ymdrin a'r heriau sy'n ymwneud a dewis iaith eu plant. Bwriedir targedu **300 o rieni** a **300 o blant** trwy'r gweithgareddau. Bydd o leiaf **10** o'r gweithgareddau yma yn digwydd o fewn ardal Partneriaeth AmanTawe a bwriedir targedu **100 o rieni** a **100 o blant** trwy'r gweithgareddau.
		Cynnal stondin yn ystod y digwyddiadau er mwyn hyrwyddo manteision yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yn ystod ein gweithgareddau. Ar ben y digwyddiadau uchod, bydd y Fenter yn cynnal stondin mewn **10** weithgaredd sydd eisoes yn bodoli gan anelu at gysylltu gyda **150 o rieni** a **150 o blant** er mwyn sôn am y manteision.
		Darparu **100** o becynnau ymwybyddiaeth iaith i rieni er mwyn gosod cyd-destun hanesyddol a diwylliannol y Gymraeg a'u dosbarthu ar y we ac mewn gweithgareddau cymdeithasol. Y bwriad fydd i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i o leiaf **100 o rieni.**
		Cynnal **20** gweithgaredd i ddylanwadu ar staff sydd yn gwasanaethu'r sector teulu a phlant er mwyn ceisio dylanwadu'n gadarnhaol ar y ddarpariaeth a codi'r lefel o wasanaethau Cymraeg a dwyieithog. Byddwn yn ymgysylltu â **20** o oedolion.

Plant a Phobl Ifanc	Plant a phobl ifanc yn defnyddio mwy o'r Gymraeg	Trefnu **4** gweithgaredd ar gyfer plant **dan 8 mlwydd oed** erbyn 31/03/2020 gan osod pwyslais ar godi ymwybyddiaeth o ddiwylliant cyfoes, treftadaeth neu hanes y Gymraeg. Y nod fydd i gysylltu gyda **120 o blant.**
		Cynnal **45** o weithgareddau o fewn Ysgolion Cynradd Cymraeg y sir ar gyfer plant **dros 8** er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddiwylliant cyfoes, treftadaeth neu hanes y Gymraeg. Y nod fydd i gysylltu gyda o leiaf **600 o blant**. Bydd o leiaf **16** sesiwn yn digwydd o fewn ardal Partneriaeth AmanTawe gan anelu i gysylltu gyda **225** o blant yn y sesiynau hyn.
		Darparu **18** o sesiynau sgiliau cyfrwng Cymraeg ar gyfer o leiaf **50 o bobl ifanc** unigryw erbyn 31/03/2020 er mwyn datblygu, meithrin arferion iaith cadarnhaol a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ysgol.
		Canolbwyntio ar ardal Partneriaeth Aman Tawe (ardal o sensitifrwydd ieithyddol) er mwyn cydweithio gyda'r Swyddog Her lleol a dylanwadu yn gadarnhaol ar **5 o blant** er mwyn sicrhau eu bod yn dewis pontio i ysgol Uwchradd Cymraeg.
		Datblygu o leiaf **4** gweithgaredd rheolaidd cyfrwng Cymraeg ar gyfer o leiaf **60 o bobl ifanc** unigryw erbyn 31/03/20 er mwyn datblygu a chynnal sgiliau llafar, meithrin arferion iaith cadarnhaol a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ysgol. Bydd o leiaf **1** o'r gweithgareddau yma ar gyfer pobl ifanc ardal Partneriaeth AmanTawe yn unig.
		Cefnogi Ysgol Gyfun Ystalyfera gyda chlwb ieuenctid 'Stafell Stwnsh' a chynllun mentora drwy gyflawni **120 o sesiynau** a fydd yn darparu gwasanaeth i **300 o bobl ifanc** y mis erbyn 31/03/20. Y nod fydd i adnabod unigolion o fewn blwyddyn 9-11 er mwyn eu datblygu fel arweinwyr iaith.
		Darparu amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli i aelodau'r chweched dosbarth yn Ystalyfera erbyn 31/03/20 er mwyn iddynt cael profiadau a magu hyder i ddefnyddio'r iaith mewn ffordd proffesiynol. Y nod fydd i gael o leiaf **10** o wirfoddolwyr i gefnogi o leiaf **4** o weithgareddau amrywiol.
		Datblygu **2 brosiect trawsffiniol** gyda mentrau / fudiadau perthnasol er mwyn mynd a 30 o bobl ifanc yr ardal i ymweld ac ardaloedd eraill o Gymru erbyn 31/03/20.

		Trefnu **4 gweithgaredd** ar gyfer pobl ifanc (**13-19**) erbyn 31/03/20 gan osod pwyslais ar godi ymwybyddiaeth o ddiwylliant cyfoes, treftadaeth neu hanes y Gymraeg. Y nod fydd i ymgysylltu gyda **120 o bobl ifanc** hen.
		Parhau gyda'r bartneriaeth gyda tîm rhanbarthol y Gweilch gyda'r bwriad o greu **20 o hyfforddwyr rygbi** sydd yn medru'r Gymraeg o fewn yr ardal erbyn 31/03/20.
		Cydweithio gyda Swyddog Cynnydd Ystalyfera er mwyn datblygu **1 prosiect** hir-dymor gyda'r bobl ifanc gyda'r pwyslais ar greu mentoriaid yn y chweched dosbarth bydd yn cefnogi blynyddoedd iau yr ysgol gyda'u sgiliau neu agweddau tuag at yr iaith.
		Cynnal o leiaf **2 ddigwyddiad** neu weithgaredd penodol gyda'r coleg addysg bellach a/neu'r darparwr hyfforddiant a phrentisiaethau yn ardal y Fenter. Y pwrpas yw cefnogi, hyrwyddo a chydweithio i gynnal digwyddiadau, fydd yn cynyddu defnydd ieithyddol ac ymwybyddiaeth ieithyddol y myfyrwyr o werth y Gymraeg yn y gweithle ac i'r dyfodol. Dylid cydweithio gyda mentrau cyfagos i gael polisi cydlynu wrth gysylltu â'r colegau, er mwyn osgoi dyblygu.
Y Gymuned	Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn Cymunedau Castell-nedd Port Talbot.	Cynnal **25 o weithgareddau cymunedol** er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn glywadwy ar draws y sir erbyn 31/03/20. Byddwn yn anelu i ymgysylltu gydag o leiaf **1000 o bobl** yn ystod y cyfnod. Bydd y gwaith yma yn cael ei arwain gan y **7 grwp gweithredu lleol** er mwyn sicrhau diddordeb. Byddwn yn anelu i gynnal o leiaf **4** o'r gweithgareddau yma yn ardal Partneriaeth Aman Tawe.
		Gweithio'n dwys gyda **4 sefydliad lleol** dros gyfnod o flwyddyn i'w harwain drwy broses o gynyddu'r defnydd a'r darpariaeth Gymraeg sy'n cael ei chynnig.
		Cynnal **5 sesiwn** ymwybyddiaeth iaith / seicoleg iaith ar gyfer staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot er mwyn sicrhau bod y Swyddog sy'n gyfrifol am yr iaith yn derbyn cefnogaeth gan y Fenter. Bydd y Fenter yn cefnogi'r gwaith yma trwy mynychu cyfarfodydd Swyddogion Iaith yn gyson.

		Targedu (o leiaf) dwy gymdogaeth gan ddefnyddio'r adnodd Gweithredu'n Lleol i adnabod sefyllfa'r Gymraeg o fewn y cymdogaethau hynny, gan arwain at weithredu camau i hybu'r Gymraeg yn lleol. Disgwylir i'r gwaith gael ei arwain gan y Fenter gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr. (Darperir hyfforddiant ar gyfer cyflawni'r gwaith yma) Bydd o leiaf 1 pentref (a'r busnesau perthnasol) o fewn ardal partneriaeth AmanTawe.
Dysgwyr	Mwy o ddysgwyr yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol.	Cynnal o leiaf 2 gyfarfod gyda darparwyr Dysgu Cymraeg i drafod a llunio rhaglen o weithgareddau a drefnir gan y Fenter sy'n targedu dysgwyr. Bydd disgwyl i'r gweithgareddau gyd-blethu a chyfrannu at ddarpariaeth prif ffrwd ac unrhyw weithgaredd arloesi yn y gymuned. Bydd unrhyw farchnata yn ymwneud â'r gweithgaredd yn mabwysiadu'r cynllun brandio a gytunwyd rhwng Mentrau Iaith Cymru a'r Ganolfan Genedlaethol. (Yn gyffredinol, bydd y Mentrau a'r partneriaid yn canolbwyntio'n bennaf ar ddysgwyr ar lefelau uwch). Cefnogi Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe a leolir yn Prifysgol Abertawe gyda chynlluniau i gaffael a chadw dysgwyr newydd gan ychwanegu at o leiaf **5** weithgaredd a drefnir gan staff Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn ystod y flwyddyn.
Y Seilwaith	Bod mwy o adnoddau ac arfau ar gael i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys o fewn yr amgylchedd digidol.	Parhau i weithio ar seilwaith y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn hwyluso trafodaethau gyda'r cwmnïau cynllunio ac adeiladu, er mwyn sicrhau bod unrhyw rhai sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio (masnachol) yn mabwysiadu polisi iaith y Cyngor.
		Cyflawni Lefel 1 PQASSO erbyn 31 Mawrth 2020.
		Arwain a chyfrannu'n strategol i waith y Fforwm Iaith Sirol gan adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd gan y fforwm.
		Gweithredu ar ganlyniadau'r gwaith mapio a chynllun datblygu y 'Fframwaith Sirol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc'.
		I baratoi diweddariad I'r adroddiad ar waith Cynllun Hybu Aman Tawe baratowyd yn 2014 ar y cyd gyda Menter Dinefwr.

Cyllid

Isod ceir amlinelliad o gyllideb Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Ebrill 2019-Mawrth 2020

Costau staffio llawn	Cyfraniad gan Llywodraeth Cymru
£113,815.32	£99,944.88
Costau prosiect	Cyfraniad gan Llywodraeth Cymru
£8,000	-
Costau canolog	Cyfraniad gan Llywodraeth Cymru
£15,470.12	£15,470.12
Cyfanswm	Cyfanswm gan Llywodraeth Cymru
£137,285.44	£115,415

Arian cyfatebol bydd angen ei godi Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Yn ogystal â'r cyllid wrth Lywodraeth Cymru, bwriedir denu nawdd ar gyfer o leiaf 28% o'r costau prosiect llawn ac fe fyddwn yn ymgeisio o'r ffynonellau canlynol (mewn achlysur lle mae'r symiau wedi'u cytuno rydym wedi ychwanegu**:

Talebau Tesco	£4,000**
Ysgol Gyfun Ystalyfera	£11,250**
Incwm o Brosiectau Amrywiol	£6,620
Cyfanswm arian cyfatebol i'w godi	£21,870.44

menter iaith
Castell-nedd Port Talbot

Tŷ'r Gwrhyd, Stryd Holly, Pontardawe. SA8 4ET
01639 763819 www.micnpt.cymru